

# Mark Rolfe - Aelod o Fwrdd yr ASB

Yn amlinellu hanes proffesiynol aelodau ein bwrdd ac yn rhoi manylion unrhyw ddiddordebau busnes sydd ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.



Ymarferwr Safonau Masnach Siartredig yw Mark, a chyn iddo ymgymryd â'i rôl bresennol, treuliodd dros 30 mlynedd yn y proffesiwn hwn yn darparu ac yn arwain y gwasanaeth yng Nghaint (Kent).

Yn 2015, dechreuodd Mark yn ei rôl bresennol fel Pennaeth Gwasanaethau Gwyddonol Caint. Gwasanaeth Labordy Dadansoddwr Cyhoeddus, Tocsicoleg a Graddnodi Mesureg Mewnol Sir Caint oedd y gwasanaeth hwn, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn i lywodraeth a busnesau lleol a chenedlaethol.

Yn ystod ei yrfa mae Mark wedi bod yn ymwneud â darparu gwasanaethau safonau bwyd ac ymchwilio i dwyll defnyddwyr. Gwasanaethodd Mark ar y Gr?p Tasg Cenedlaethol ar gyfer Safonau Masnach Cenedlaethol ac roedd hefyd yn Gyfarwyddwr Safonau Masnach South East Ltd., sefydliad partneriaeth Gwasanaethau Safonau Masnach yn rhanbarth De Ddwyrain Lloegr.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r Sefydliad Safonau Masnach Siartredig, mae Mark hefyd yn aelod cyswllt o Gymdeithas y Dadansoddwyr Cyhoeddus.

Mae Mark wedi gwasanaethu ar Gyngor Gwyddoniaeth yr ASB ers ei sefydlu yn 2017 fel yr aelod sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr a dinasyddion.

Y tu allan i'r gwaith, mae Mark yn briod â Jane, sy'n Bennaeth ysgol, ac mae ganddo dri o blant sydd wedi tyfu bellach. Mae'n Gadeirydd Llywodraethwyr mewn ysgol uwchradd fawr ac yn gynghorydd i'r sgowtiaid yn ei ardal leol.

## **Cyflogaeth**

- Pennaeth Gwasanaethau Gwyddonol Caint, Cyngor Sir Caint.
- Ymarferwr Safonau Masnach Siartredig

## **Swyddi Cyfarwyddwr**

Swyddi Cyfarwyddwr, gyda thâl neu'n ddi-dâl.

- Dim

## **Incwm, cydnabyddiaeth neu fuddion**

Unrhyw fusnes, gweithgarwch proffesiynol neu gyhoeddus neu fuddiannau sy'n ffynhonnell incwm, cydnabyddiaeth neu sydd o fudd arall.

- Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Ramadeg Maidstone.

## **Sefydliadau, clybiau neu gyrff**

Aelodaeth o gyrff cyhoeddus, ymddiriedolaeth elusen neu ymddiriedolaeth gyhoeddus neu breifat arall, neu aelodaeth, rôl neu ymlyniad â chlwb neu sefydliad.

- Aelod o'r Sefydliad Safonau Masnach Siartredig
- Aelod Cyswllt o Gymdeithas y Dadansoddwyr Cyhoeddus.

## **Cyfranddaliadau a buddsoddiadau**

Unrhyw gyfranddaliadau, ac eithrio'r rheiny sy'n cael eu cadw gan gwmni buddsoddi neu drefniadau tebyg lle nad oes gan aelodau'r Bwrdd ddylanwad ar y ffordd y caiff y cyfranddaliadau eu rheoli.

- Dim.